

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

**Aelodau:**

Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol
Adam Marshall	Aelod-gyflogai etholedig
Anne Beegan	Aelod-gyflogai etholedig
Darren Griffiths	Aelod-gyflogai penodedig
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (Yn cadeirio)
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

**Ymddiheuriadau:**

Lindsay Foyster	Cadeirydd y Bwrdd ac aelod anweithredol
Kevin Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS)

**Yn bresennol:**

Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC)
Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS)
Katherine Drysdale	Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion)
Chris Bolton	Rheolwr Ymchwil a Datblygu DaChA (Datblygu a Chanllaw Archwilio) (eitem 2)
Martin Peters	Pennaeth y Gyfraith a Moseg (eitem 2)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitem 3)

**Yn Arsylwi:**

Kathryn Chamberlain	Aelod anweithredol a Darpar Gadeirydd y Bwrdd
---------------------	---

Eitem	Agenda
1.	Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau
2.	Diweddariad sganio'r gorwel
3.	Diweddariad ariannol ac adolygiad o gynaliadwyedd
4.	Canlyniadau'r arolwg pobl ac ymateb rheolwyr
5.	Dysgu a datblygu'r Bwrdd 2023-24
6.	Unrhyw fusnes arall
7.	Dyddiad y cyfarfod nesaf

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
<b>Eitemau Sefydlog</b>		
<b>1.</b>	<b>Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau</b>	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol, gan gynnwys Darren Griffiths a oedd yn mynychu ei gyfarfod Bwrdd cyntaf fel aelod (ac a fyddai'n ysgrifennu'r blog) a Darpar Gadeirydd y Bwrdd	DG

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	Kathryn Chamberlain. Nododd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Lindsay Foyster a Kevin Thomas.	
1.2	Nododd y Cadeirydd na fyddai'r cyfarfod â chworwm oherwydd absenoldeb Lindsay Foyster. Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd byddai'r cyfarfod hwn at ddiben trafodaethau anffurfiol yn unig a byddai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gohirio tan y cyfarfod busnes ar 16 Chwefror 2023.	
<b>2.</b>	<b>Diweddariad sganio'r gorwel</b>	
2.1	Cyflwynodd EDAS bapur yn rhoi diweddariad sganio'r gorwel a oedd yn amlinellu'r materion allweddol a'r cyfleoedd a oedd y llywio datblygiad blaenraglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.	
2.2	Cafwyd cyflwyniad gan Reolwr Datblygu a Chanllaw Archwilio yn amlinellu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• y broses ar gyfer datblygu'r rhaglen waith a'r ffactorau sy'n dylanwadu arni;</li> <li>• y themâu sy'n greiddiol i'r blaenraglen waith;</li> <li>• materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar gyflawni archwiliad ariannol;</li> <li>• pwysau allanol a'u heffaith ar Archwilio Cymru a chyllid y sector cyhoeddus;</li> <li>• cyfleoedd posibl ar gyfer archwilio;</li> <li>• datblygu'r broses sganio'r gorwel.</li> </ul>	
2.3	Esboniodd Pennaeth y Gyfraith a Moeseg y gwaith a wnaed i sganio ac i ymateb i ddeddfwriaeth sy'n datblygu a newidiadau deddfwriaethol a newidiadau eraill a allai effeithio ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC. Nododd y Bwrdd fod y tîm Cyfraith a Moeseg yn cymryd rhan weithredol mewn ystod eang o faterion a allai effeithio ar y sefydliad gan gynnwys newidiadau i foeseg broffesiynol, ond fel arfer byddai'n gwneud sylw ar bolisi yn unig pan fo hyn yn berthnasol i redeg y busnes neu i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (gan ystyried y gwaharddiad ar beidio â gwneud sylwadau am rinweddau polisi mewn llawer o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol).	
2.4	Bu'r Bwrdd yn trafod yr uchelgais i ddefnyddio persbectif traws-sector Archwilio Cymru i gynnal gwaith thematig i gefnogi gwelliannau a rhoi gwerth i bobl Cymru, gan gydnabod y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd llawer o waith lleol yr Archwilydd Cyffredinol yn ofynnol o dan ddyletswyddau statudol, tra bod gwaith trawsbynciol ehangach yn cael ei wneud o dan gyfuniad o bwerau;</li> <li>• cafodd cyllid ar gyfer gwahanol sectorau effaith ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud.</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	Nododd y Bwrdd fod rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol yn amrywiol, llwyddodd i ddarparu ystod o allbynnau a rhannodd y tîm Cyfnewidfa Arfer Da (GPX) arfer da trwy ei ddigwyddiadau a'i allbynnau.	
2.5	<p>Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• manteision sganio'r gorwel er mwyn darparu dyfnder o ddealltwriaeth i lywio datblygiad y rhaglen waith a chynllunio ei chyflawniad;</li> <li>• goblygiadau datblygiadau newydd, megis y defnydd cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial;</li> <li>• y broses sganio'r gorwel, y sgiliau, yr wybodaeth a'r rhwydweithiau a allai ei llywio, gan gynnwys rôl aelodau'r Bwrdd wrth gyfrannu deallusrwydd perthnasol a'r cynllun ar gyfer uwchgynhadledd i ddwyn ynghyd a datblygu cyfraniadau pawb sy'n gysylltiedig â hyn.</li> </ul>	
2.5	Diolchodd y Bwrdd i Reolwr DaChA a Phennaeth y Gyfraith a Moeseg am gyflwyniad addysgiadol gan nodi'r diweddariad.	
<b>3.</b>	<b>Cyllid</b>	
(a) diweddariad ariannol		
3.1	Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd Rhagfyr a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd roedd hi'n rhagweld gwared diwedd blwyddyn, ond byddai hyn yn ddibynnol ar y ddarpariaeth o incwm yn y chwarter olaf.	
3.2	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y ffactorau sy'n effeithio ar y ddarpariaeth o incwm, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, gweithredu diwydiannol a swyddi gwag. Sicraodd y Pennaeth Cyllid y Bwrdd bod y ddarpariaeth o incwm a'r ffactorau sy'n effeithio arni yn cael eu monitro'n wythnosol;</li> <li>• lefel y gwariant ar deithio a chynhaliadau, gan nodi nad oedd patrymau gweithio wedi'u hailsefydlu'n llawn eto. Esboniodd yr EDAS fod disgwyl i'r cynlluniau ar gyfer gweithio yn y dyfodol gynnwys mwy o waith swyddfa a chleientiaid i gefnogi cynhyrchiant, dysgu a datblygu (yn wyneb cyfraddau methu arholiadau uwch) a llesiant;</li> <li>• manteision HUB Planner wrth ddarparu data amser real er mwyn danategu rhagolygon mwy cywir, gan nodi'r disgwyliadau cynyddol ar reolwyr a staff i fewnbynnu'r wybodaeth i gyflawni hyn. Cadarnhaodd EDAS fod protocolau yn cael eu datblygu ar gyfer defnyddio'r system a byddai'r rheolwyr yn rhoi adborth i staff ar effaith gadarnhaol eu cyfraniad;</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sut y gellid defnyddio gwarged diwedd blwyddyn, gan nodi bod rheolwyr wedi gwneud ymrwymiad i'r undebau llafur i ystyried taliad anghyfunol i staff. Eglurodd y rheolwyr y byddai taliad o'r fath angen balans sylweddol a byddai dewisiadau eraill a fyddai'n cyflawni arbedion rheolaidd yn cael eu hystyried pe bai yna swm llai.</li> </ul>	
3.3	Nododd y Bwrdd y diweddariad.	
(b) adolygiad o gynaliadwyedd ariannol		
3.4	<p>Rhoddodd yr EDCC yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd o ran y broses ac egwyddorion sy'n greiddiol i adolygiad cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Amlinellodd y gweithgaredd hyd yma, y canolbwynt ar gyfer cyfarfodydd nesaf y grŵp llywio a chynlluniau ar gyfer cyfathrebu â staff. Esboniodd fod dull gweithredu pwyllog yn seiliedig ar risg yn cael ei fabwysiadu gyda Phennaeth y Gyfraith a Moeseg yn cynghori ynghylch unrhyw effaith bosibl ar swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar SAC.</p>	
3.5	<p>Bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol gyda'r rheolwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pwysigrwydd sicrhau bod gan yr Archwilydd Cyffredinol ddigon o gyllid i gyflawni ei swyddogaethau statudol, gan ystyried gwerth archwilio cyhoeddus a'r perygl o leihau archwiliadau ar adeg o bwysau ariannol;</li> <li>• yr angen i ganolbwyntio ar unwaith ar nodi arbedion i gyflawni cyllideb 2023-24, gan ddatblygu'r adolygiad i sicrhau cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sefydliadol yn y tymor canolig a'r tymor hir;</li> <li>• cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid allanol gan gynnwys cyrff a archwilir, Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Cyllid y Senedd;</li> <li>• y cynlluniau ar gyfer ymgysylltu'n amserol a chyson â staff, a chyfranogiad staff, gan gynnwys y potensial i geisio mewnbwn staff a chydabod cynigion y gellir eu gwireddu;</li> <li>• cydbwysu'r sicrwydd a ddarperir gan broses gadarn â'r gallu i gyflawni camau amserol i wireddu manteision yr adolygiad;</li> <li>• asesu effeithiau posibl unrhyw gynigion o safbwynt cyflenwi archwiliadau ac ansawdd ac yn ehangach i ystyried materion megis cydraddoldebau, y Gymraeg a chynaliadwyedd.</li> </ul>	
3.6	Sicrhaodd yr EDCC y Bwrdd y byddai'r rheolwyr yn ystyried mewnbwn y Bwrdd wrth fwrw ymlaen â'r adolygiad, ac wrth gynllunio ymgysylltu â staff.	
3.7	Nododd y Bwrdd yr adroddiad ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023.	
<b>4.</b>	<b>Canlyniadau'r arolwg pobl ac ymateb y rheolwyr</b>	
4.1	Cyflwynodd yr EDCC bapur yn crynhoi sgoriau'r arolwg lle gwelwyd gwelliant neu ddirywiad sylweddol, wedi'i feincnodi o'i gymharu â	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	<p>sgoriau arolwg cyffredinol y CSPS ar gyfer 2021 (nid yw sgoriau 2022 y CSPS ar gael eto). Eglurodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod y rheolwyr wedi adolygu'r sgoriau yng nghyd-destun sylwadau'r arolwg a'u bod yn bwriadu canolbwyntio ymdrechion ar fynd i'r afael â sicrhau adnoddau, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â staff a nodwyd fel y meysydd allweddol sy'n sail i'r sgoriau is;</li> <li>• ni fyddai cynllun gweithredu penodol yn cael ei ddatblygu - byddai gweithgaredd yn ychwanegu at waith arall sydd ar y gweill, megis cyflawni Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, adolygu cyfathrebu mewnol, cyflawni'r rhaglen Rheolwr Pobl a gweithredu safonau ansawdd archwiliadau newydd;</li> <li>• y gweithgaredd a'r dull gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 2023-24, a fyddai'n cynnwys yr ELT, Y Bwrdd, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaethau a'r Timau Adnoddau Dynol a Chyfathrebu.</li> </ul>	
4.2	<p>Trafododd y Bwrdd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• effaith diwylliant sefydliadol cadarnhaol, wrth greu ymdeimlad o berthyn, cynwysoldeb a balchder, ar foddhad staff;</li> <li>• manteision gweithio a digwyddiadau personol (megis cynhadledd) i ddod â'r holl staff at ei gilydd;</li> <li>• datblygu sianeli cyfathrebu mewnol cryf a chadarnhaol;</li> <li>• sut y gallai'r rheolwyr ddangos eu hymateb i'r arolwg drwy gyfeirio'n glir ac yn rheolaidd ato (dywedoch chi... fe wnaethom ni), yn absenoldeb cynllun gweithredu manwl;</li> <li>• gwerth darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu / deialog ddwy ffordd yn sioeau teithiol arfaethedig yr ELT;</li> <li>• y negeseuon croes yng nghanlyniadau'r arolwg a sut y gallai arolygon pwls cyfnodol ac annog staff i sgorio'n gadarnhaol neu'n negyddol (yn hytrach na niwtral) helpu gyda dehongli.</li> </ul>	
4.3	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
<b>5.</b>	<b>Dysgu a datblygu'r Bwrdd</b>	
5.1	Gofynnodd y cadeirydd i aelodau ystyried ac amlygu unrhyw anghenion dysgu a datblygu penodol ar gyfer 2023-24 at ddibenion cynllunio cyllideb.	Pawb
5.2	Bu'r Bwrdd yn trafod yn fras y cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael drwy LinkedIn Learning, ei rhaglen waith, digwyddiadau GPX a hyfforddiant staff Archwilio Cymru.	
<b>6.</b>	<b>Unrhyw Fusnes Arall</b>	
6.1	Cytunodd y Bwrdd y byddai ei gyfarfod ar 08 Mehefin 2023 yn symud i ddyddiad diweddarach er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau ar gael: rhag-gyfarfod am 1.30pm, cyfarfod y Bwrdd am 2pm.	Ysgrifennydd y Bwrdd
<b>7.</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 26 Ionawr 2023**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
7.1	Cyfarfod Busnes y Bwrdd: 10am, dydd Iau 16 Chwefror 2023	